Dyma eich penderfyniad.

Amgaeaf lythyr yn dweud canlyniad eich penderfyniad a'r rheswm drosto. Rwy'n gobeithio y gallwch chi ei ddeall ac yn fodlon ar y gwasanaeth a gawsoch chi.

Cwynion neu gwestiynau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu gwestiynau am eich penderfyniad neu am ein gwasanaeth, gallwch gysylltu â ni:

Dros y ffôn ar **0800 096 1928**
Drwy ffôn testun ar **0800 096 1929**

Gallwch chi ein ffonio rhwng 9.00am a 4:30pm, ddydd Llun i ddydd Gwener. Bydd eich galwad am ddim o linell dir. Byddwn yn ffonio'n ôl os ydych chi'n defnyddio ffôn symudol.

Drwy bost at
Independent Review Service FREEPOST

Drwy ffacs ar **0121 606 2184**

Os oes nam ar eich golwg ac rydych chi angen ein llythyrau yn Braille, ar dâp sain neu mewn print bras ffoniwch ni ar **0800 096 1928.**

Os oes angen ichi siarad â ni neu ysgrifennu atom mewn iaith arall, gallwn ni drefnu hynny. Ffoniwch ni ar **0800 096 1928** a byddwn yn ei drafod gyda chi.

Ein haddewid i chi

Rhoddwn ymateb llawn i'ch cwyn cyn gynted ag y gallwn ni, fel arfer o fewn 15 diwrnod. Weithiau mae'n rhaid inni wneud rhagor o ymholiadau neu gael eich papurau oddi wrth Ganolfan Byd gwaith a gall hynny gymryd yn hirach.

Os byddwch yn cwyno cewch eich trin yn deg gennym. Os ydych chi wedi cael rhywbeth yn anghywir byddwn yn ymddiheuro ac yn ei unioni.

irs
Independent Review Service
for the Social Fund

Cymorth Arall

Efallai bydd y sefydliadau canlynol yn gallu eich helpu a rhoi cyngor a chymorth cyffredinol. Nid yw'r Gwasanaeth Adolygu Annibynnol yn gyfrifol am y wybodaeth sy'n cael ei darparu gan y sefydliadau hyn.

Canolfan Cyngor ar Bopeth (CAB)

Mae eich CAB lleol yn lle da i gael cyngor am ddim ar broblemau cyfreithiol, ar arian ac ar broblemau eraill. Gallwch ddod o hyd i'ch CAB lleol yn y llyfr ffôn neu yn www.citizensadvice.org.uk ar gyfer Cymru a Lloegr neu www.cas.org.uk ar gyfer canolfannau yn yr Alban.

Cyngor Cyfreithiol Cymunedol (CLA)

Os ydych chi'n gymwys i gael cymorth cyfreithiol, gall Cyngor Cyfreithiol Cymunedol ddarparu cymorth a chyngor cyfreithiol cyfrinachol am ddim dros y ffôn am broblemau'n ymwneud â dyledion, tai, cyflogaeth, addysg, budd-daliadau a chredydau treth. Ffoniwch **0845 345 4 345** neu
ewch ar lein yn www.communitylegalar-lein drwy fynd i **www.communitylegaladvice.org.uk**

Age Concern a Help the Aged

Mae Age Concern a Help the Aged wedi dod ynghyd i ffurfio elusennau cenedlaethol newydd sydd wedi ymroi i wella bywydau pobl hŷn. Maen nhw'n darparu cefnogaeth i bawb dros 50 er mwyn sicrhau bod pobl yn cael y mwyaf allan o fywyd. Am gyngor a chefnogaeth gyfrinachol gallwch eu ffonio ar **0800 009 966** ar gyfer Cymru a Lloegr a **0845 125 9732** ar gyfer yr Alban neu ewch i'w gwefan yn **www.helptheaged.org.uk neu www.ageconcern.org.uk**

Llinell Ddyled Genedlaethol

Mae'r Llinell Ddyled Genedlaethol yn cynnig cymorth cyfrinachol ac annibynnol am ddim dros y ffôn ar sut i ddelio â phroblemau dyled. Gallwch ffonio eu llinell gymorth am ddim ar **0808 808 4000** a hefyd islwytho cyhoeddiadau o'u gwefan yn www.nationaldebtline.co.uk.

Llinell Gymorth Benthyca Arian yn Anghyfreithlon

Os ydych chi wedi benthyg gan rywun a does dim trwydded ganddo/ganddi i fenthyg arian, nid ydych chi wedi torri'r gyfraith – mae'r person hwnnw wedi gwneud hynny. Mae'r Tîm Benthyca Arian yn Anghyfreithlon yn ymchwilio i fenthycwyr arian didrwydded ac yn eu herlyn ar draws y wlad a hefyd yn helpu pobl i gael hyd i gyngor cyfreithiol cywir. Os oes gennych unrhyw wybodaeth am fenthycwyr arian didrwydded gallwch ffonio'r llinell gymorth gyfrinachol 24 awr; ffoniwch **0300 555 2222.**

Mae ein polisi preifatrwydd yn esbonio sut rydym yn defnyddio'r wybodaeth a roddwch inni. Mae hon ar gael ar gais ar ein gwefan yn www.irs-review.org.uk.

Eich hawliau a'r gyfraith

Pan fyddwn wedi rhoi ateb ichi am eich cwyn neu'ch cwestiwn mae gennych hawliau eraill i'n herio os ydych yn anfodlon o hyd. Efallai y bydd angen ichi gael rhywfaint o gymorth cyfreithiol oddi wrth gyfreithwyr, Canolfannau Cyngor ar Bopeth neu ganolfannau'r gyfraith. Ar ôl y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol cewch fynd i'r Uchel Lys os nad ydych chi'n fodlon ar y penderfyniad (gelwir hyn yn Adolygiad Barnwrol). Neu'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd os nad ydych chi'n fodlon ar ein camau neu ein gwasanaeth.